



THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

Anerchiad y Llywydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru 20 Mai 2020

Croeso i Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cymdeithas Ddysgedig Cymru, y degfed.

Fyddai neb wedi gallu rhagweld y byddai'r cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn yr amgylchiadau arswydus hyn. Hoffwn ddechrau drwy anfon fy nymuniadau gorau i'r Cymrodyr a'u teuluoedd am iechyd da a diogelwch yn y cyfnod hwn.

Dyma fy chweched anerchiad i'r Gymrodoriaeth a'r olaf. Rwyf i'n ddiolchgar i chi am y fraint o gael llywyddu ein Hacademi Genedlaethol. Bu'n anrhydedd aruthrol ac yn gyfnod hynod o bleserus. Arwyddair fy ysgol oedd "Ym mhob braint y mae dyletswydd". I ni fel Cymrodyr, mae braint y Gymrodoriaeth yn cyd-fynd ag ymrwymiad i gyfrannu, rhoi rhywbeth yn ôl i'r Gymdeithas Ddysgedig a chytuno i wasanaethu'r Genedl. Hoffwn ddiolch yn benodol i lawer yr wyf i wedi gweithio gyda nhw, i bawb a gyfrannodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn cynifer o ffyrdd, ac i Martin Pollard a'i dîm am eu gwasanaeth rhagorol, bellach mewn amgylchiadau heriol.

Rydym wedi nodi'r rhestr o Gymrodyr a fu farw eleni. Nid peth dymunol yw cyfeirio'n benodol at rai unigolion, ond gobeithio y bydd fy nghymdeithion yn deall pam fy mod am dynnu sylw at gyfraniad anfesuradwy fy rhagflaenydd yr Athro Syr John Cadogan a'r Cymrodyr Cychwynnol yr Athro John Wyn Owen, yr Athro Keith Robbins, yr Athro Roger Owen a'r Athro John Houghton.

Gan edrych yn ôl dros y degawd, mae'r Gymdeithas wedi cyflawni llawer. Mae gennym Siarter Brenhinol, bellach ceir dros 560 o Gymrodyr, rydym ni wedi cydnabod talent, hyrwyddo ymchwil ac ysgolheictod, a chaiff ein llais ei glywed a'i barchu. Diolch i'n cefnogwyr mae ein sefyllfa ariannol yn gadarn. Ond mae angen o hyd i ni osod ein cyllid ar sail fwy cynaliadwy. Mae hyn yn waith parhaus sy'n cynnwys trafod gyda'r Cyngor Cyllido ynghylch cyrchu'r hyn a elwir yn ddi-fidend Diamond. [Rydym ni wedi lansio ymgyrch penodol i annog rhoddion ym mlwyddyn ein deng mlwyddiant, a thynnaf eich sylw ato.](#)

Nodau Strategol y Gymdeithas Ddysgedig yw dathlu rhagoriaeth, hyrwyddo ymchwil, hybu ysgolheictod a gweithredu fel ffynhonnell annibynnol o gyngor i lywodraethau ac eraill. Drwy weithredu'r amcanion hyn ein gobaith yw sbarduno uchelgais drwy ysbrydoli academyddion a dysgwyr iau. Yn ein holl waith ceisiwn gynrychioli gwerthoedd rhagoriaeth, amrywiaeth ac annibyniaeth.

Yn ôl yr arfer, cynhaliwyd llawer o fusnes rheolaidd. Mae gweithgareddau wedi parhau ar draws Cymru. Rydym ni wedi trefnu darlithoedd, cefnogi digwyddiadau, dyfarnu medalau a chynnig barn wybodus i'r llywodraeth a deddfwrfeydd. Rydym ni'n cydweithio'n adeiladol gydag academiâu eraill.

Hoffwn dynnu eich sylw at bum maes gwaith penodol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gwnaeth eich Cymdeithas gyfraniadau defnyddiol i ddatblygu Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru. Elfen bwysig o'r strategaeth hon yw'r ffordd mae Cymru'n dylanwadu ar ddatblygiadau y tu allan i Gymru er budd y genedl. [Aethom ati felly i gynllunio cyfres o ddigwyddiadau Cymru a'r Byd](#). Roedd y cyntaf yn archwilio safbwyntiau ar Bŵer Meddal, gyda symposiwm llwyddiannus ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Agorodd Joe Nye o Harvard, awdur y cysyniad, y digwyddiad gyda chyflwyniad fideo. Eglurodd Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, ei syniadau ac atebodd gwestiynau. Aethom ati i nodi'r galluoedd oedd ar gael yng Nghymru a allai ddylanwadu. Y casgliad clir oedd pwysigrwydd dylanwadu ar Lundain yn llwyddiannus.

Roedd sesiwn ddilynol yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn canolbwyntio ar rôl y celfyddydau a diwylliant. Roedd yr enghreifftiau niferus yn amrywio o opera i ganu pop, llenyddiaeth a theatr. Mae gennym sefydliadau cerddorol rhagorol. Mae Cymru wedi gwneud cyfraniadau sylweddol a pharhaus i gerddoriaeth boblogaidd ac mae iddi gapasiti cynyddol ar gyfer cynhyrchu ffilm a theledu. Mae prifysgolion Cymru bob amser wedi bod yn rhyngwladol felly roedd rôl addysg uwch yn bwnc amlwg i'w ystyried ar gyfer trydydd digwyddiad y gyfres, a gynhaliwyd ym Mangor ym mis Chwefror. Y bwriad oedd y byddem yn dod â'r gwaith ynghyd ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Ebrill. Roedd ein huchelgais yn ymarferol. Pa offerynnau sydd ar gael, sut, pryd a ble y gellid eu defnyddio'n well? Pa adnoddau ychwanegol a allai fod eu hangen a sut y gallai cydlynu llac sicrhau bod yr ymdrech gyffredinol yn fwy effeithiol? Er ei bod wedi'i gohirio, y bwriad yw cynnal y sesiwn gloi hon cyn gynted â phosibl. Bydd yn gyfraniad pwysig i Gymru ôl-Covid, ôl-Brexit.

Un o gyfraniadau olaf John Wyn Owen i'r Gymdeithas oedd rhoi cyfarwyddyd i fi cyn i fi gyfarfod â'r Prif Weinidog ym mis Rhagfyr i eiriol dros rinweddau ymagwedd Un Iechyd. Dadleuai John bob amser gydag argyhoeddiad dros rinweddau manteisio ar synergeddau iechyd dynol, anifeiliaid a phlanhigion a gosod polisi iechyd mewn cyd-destun cymdeithasol, amgylcheddol a rhyngwladol. Roedd yn hollol gywir! Mae ein gwaith yn parhau. Cyn hir byddwn yn cyhoeddi pamffled yn egluro rhinweddau polisi cydlynol ac yn ddiweddarach eleni bydd eich Cymdeithas yn dod â'r arbenigedd sylweddol sydd yng Nghymru at ei gilydd. Mae heriau cyllideb y gwasanaeth iechyd, gofal cymdeithasol ac amddifadedd cymdeithasol yn tanlinellu pwysigrwydd hanfodol y pwnc. Mae'n faes hefyd lle gall Cymru fod yn batrwm.

[Mae Astudiaethau Cymreig yn faes astudio pwysig nad yw'n cael cydnabyddiaeth ddigonol](#). Fel y byddai un arall o'n Cymrodyr, yr Athro Wynn Thomas, yn dadlau "rydym yn ein deall ein hunain yn well os ydym ni'n deall cyd-destun Cymru a'r hyn mae'n ei olygu i ni". Gwneir llawer o waith ac ymchwil dan bennawd Astudiaethau Cymreig. Mae'n genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac yn cwmpasu llu o bynciau. Mae David

Boucher wedi gwneud llawer i ddod ag ymarferwyr a sefydliadau ynghyd. Ym mis Ionawr cyhoeddodd ni ein ciplun cenedlaethol cyntaf o ymchwil Astudiaethau Cymreig, ac mae proffil y gwaith yn parhau i godi. Fe'i cydnabyddir hefyd yn y cwricwlwm ysgol newydd yn yr elfen 'cynefin' drawsgwricwlaidd.

Mae'r Gymdeithas Ddysgedig yn wahanol i Academiâu Cenedlaethol eraill y Deyrnas Unedig yn ein hymrwymiad i weithredu'n ddwyieithog. Ond mae dwyieithrwydd yn golygu cymaint mwy na chydymffurfio â rheoliadau am ddefnydd llafar ac ysgrifenedig o'r iaith. Mae dwyieithrwydd ac yn benodol amlieithrwydd yn cyfoethogi'r unigolyn a Chymdeithas. Roeddem ni wedi cynllunio symposiwm uchelgeisiol i archwilio gweddau niferus dwyieithrwydd; cymdeithasol, diwylliannol, economaidd, addysgol a mwy. Ein nod, fel gyda chymaint o'n gwaith, yw addysgu, ysgogi a chynhyrchu casgliadau buddiol ymarferol. Bydd yn flaenoriaeth i ni fynd ati i aildrefnu'r digwyddiad hwn, a gynlluniwyd mor dda gan Mererid Hopwood, Claire Gorrara ac Enlli Thomas.

Rwyf i wedi siarad cyn hyn am rôl y Gymrodoriaeth a'r Gymdeithas fel ffynhonnell o ysbrydoliaeth i annog nid yn unig ymchwilwyr ac academyddion, ond yn hanfodol i annog dysgwyr iau. Maen nhw'n wynebu heriau penodol a hoffwn weld mwy o gefnogaeth uniongyrchol iddyn nhw a'u hathrawon. Cyfrannom ni at ddatblygu'r cwricwlwm ysgol newydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i bennu sut y gallem gydweddu'r hyn a fyddai'n ddefnyddiol i ysgolion a dysgwyr gyda'r hyn y gall Cymrodyr a'r Gymdeithas ei ddarparu. Rydym ni'n gwneud cynnydd gyda menter Gwyddonydd Ifanc Cymru. Mae gennym gyfle adeiladol yn sgil Covid. Yr wythnos ddiwethaf lansiodd Her y Cyfnod Clo, cystadleuaeth i ddysgwyr blwyddyn 11 ac 13 i helpu i ysgogi eu dysgu yn y cyfnod hwn.

Nawr hoffwn droi at dair her sylweddol yn y dyfodol.

Mae Prifysgolion wedi bod yn wynebu cynnwrf ers blynyddoedd lawer. Mae'r problemau bellach lawer iawn yn waeth, yn gyntaf yn sgil Brexit a nawr o ganlyniad i Coronafeirws. Mae Brexit yn golygu diwedd ar y cymorth ariannol gan yr Undeb Ewropeaidd i'n prifysgolion. Mae gwariant Cronfeydd Strwythurol i gefnogi prifysgolion wedi bod yn ddylanwadol iawn yng Nghymru. Wrth i'r cyllid hwnnw gyrraedd y lle priodol, gwelwyd gwell cynnyrch ymchwil. Erbyn heddiw mae cefnogaeth y llywodraeth i ymchwil yn y dyfodol, yn cynnwys QR, yn broblematic. Mae'n ymddangos y cawn ein heithrio o Horizon Ewrop ac yn wir Erasmus. Beth a ddaw yn lle'r rhaglenni hyn? Rydym ni'n pwysu am gadw'r lefelau gwariant presennol o leiaf. Mae'n hanfodol fod Cymru'n cael cyfle teg i gyrchu'r cyllid ymchwil sydd ar gael yn y DU. Yn yr un modd mae'n hanfodol fod Cymru'n cael cyfran ar sail angen o Gronfa Ffyniant arfaethedig y DU y disgwylir iddi gymryd lle cefnogaeth yr UE.

Bu Covid yn ddifäol i waith prifysgolion, fel mewn manau eraill. Mae'r model traddodiadol dan fygythiad enfawr, a gallwn ddisgwyl i'r nifer o fyfyrwyr rhyngwladol edwino gyda'u cyfraniad ariannol pwysig felly hefyd yn cael ei gollu. Mae myfyrwyr y DU hefyd yn naturiol yn cadw eu hopsiynau ar agor. Bydd rhai yn gohirio mynediad hyd nes y bydd rhyw fath o normalrwydd yn dychwelyd. Y prifysgolion mwyaf agored i

niwed fydd y rheini y mae eu hincwm yn fwyaf dibynnol ar refeniw ffioedd. Ym mhob ffordd, bydd y pwysau ariannol ar ein prifysgolion yn llym. Rhaid i'r Gymdeithas Ddysgedig, sy'n gweithredu ar wahân i sefydliadau unigol, roi pob cefnogaeth i'r sector. Mae rôl hanfodol gan Brifysgolion mewn cymunedau lleol, yn datblygu sgiliau, yn cyfrannu at yr economi, drwy eu cynnyrch ymchwil a denu diddordeb a buddsoddiad rhyngwladol yng Nghymru. Bydd angen pob cymorth ar brifysgolion Cymru, yn enwedig o du'r Llywodraeth, wrth iddynt fynd drwy'r argyfwng a dod allan i'r normal newydd.

Diben eich Cymdeithas yw "Dathlu Ysgolheictod a Gwasanaethu'r Genedl" ac rydym ni wedi cynnig cyngor arbenigol mewn nifer o feysydd. Rwyf i'n falch i ddweud bod y cyngor hwn yn cael ei geisio a'i werthfawrogi fwyfwy. Mae'n eang ac mae'r angen amdano'n gynyddol amlwg. Mae Covid 19 wedi dangos yr angen am gyngor sydd wedi'i lywio gan ymchwil ar sail tystiolaeth, gan wyddonwyr a gwyddonwyr cymdeithasol. Wrth gwrs, rhaid i'r penderfyniadau terfynol ystyried yr holl ffactorau perthnasol, ond dylai strategaeth fod yn seiliedig ar arbenigedd proffesiynol. Mae gwleidyddion ac arbenigwyr yn gweithio gyda'i gilydd, a does ond gobeithio na fydd y gwleidyddion yn defnyddio'r arbenigwyr fel bwch dihangol am fethiannau diweddarach. Mae Cymrodyr, er enghraifft, wedi bod yn cynnig cyngor i Lywodraeth Cymru ar ymdrin â Brexit ac ar faterion a allai godi wrth i gyfnod clo Coronafeirws leddfu. Mae cyfraniad penodol gan y Gymdeithas Ddysgedig i'w wneud i fywyd yng Nghymru a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu Cymru. Byddwn yn gwneud hynny'n fwy effeithiol po fwyaf y gallwn fanteisio ar arbenigedd y Gymrodoriaeth, ein hased cryfaf. Fy nymuniad yw efelychu'r arfer yng Nghymdeithas Frenhinol Caeredin, sy'n gallu tynnu arbenigwyr at ei gilydd ar faterion allweddol, gyda'r grŵp yn llunio adroddiadau pwrpasol ardderchog. Mae ein Cymrodoriaeth ninnau bellach yn ddigon mawr i'n galluogi i wneud mwy o hyn ac adeiladu ar drefniadau sydd wedi gweithio yn y gorffennol ar gyfer datganoli, addysg ac iechyd.

Wrth i mi dynnu tua therfyn yr anerchiad hwn, yr olaf i mi fel Llywydd, hoffwn ddiolch i chi am y fraint o wasanaethu. Rwyf i'n arbennig o ddiolchgar i bawb rwyf wedi gweithio gyda nhw, i'r Cymrodyr, y rheini sydd wedi gwasanaethu fel Swyddogion, ar y Cyngor a Phwyllgorau eraill ac sy'n cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas mewn cynifer o ffyrdd. Ychydig iawn o'n gwaith fyddai wedi bod yn bosibl heb ein staff rhagorol.

[Fy mhleser nawr yw trosglwyddo'r awenau i'r Athro Hywel Thomas](#), sy'n academydd o fri ac eisoes yn aelod o'r Cyngor. Fy nymuniadau gorau iddo ac i'r Gymdeithas am lwyddiannau parhaus a chynyddol. Rwyf i'n gadael yn hyderus o berthnasedd hanfodol y Gymdeithas Ddysgedig a'i sylfaen cynaliadwy, yn llawn argyhoeddiad ynghylch ein nodau strategol ac yn gwbl sicr o'r potensial i gyflawni mwy dros ein cenedl.

Diolch yn fawr.